# Y Pwyllgor Busnes

## Cofnodion BC(3)06-10

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 23 Chwefror 2010
**Amser:** 08.30
**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod y 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)
Jane Hutt, Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
Alun Cairns, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig
Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ
Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol
Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth
Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad
Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes

### 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

#### (i) BC(3)05-10 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 9 Chwefror 2010

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddant yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

### 3. Busnes i ddod

#### Busnes yr wythnos hon - BC(3)06-10(p1)

3.1 Yn absenoldeb y Dirprwy Llywydd, nododd y Pwyllgor y byddai Dirprwy Lywydd dros dro yn cael ei ethol ar ddechrau pob Cyfarfod Llawn nes ei bod yn dychwelyd.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor na ddylai'r Cyfnod Pleidleisio ddigwydd cyn 5pm ddydd Mawrth na dydd Mercher.

3.3 Nododd y Pwyllgor drefn busnes 23 a 24 Chwefror 2010.

3.4 Cytunodd y Pwyllgor i atal Rheolau Sefydlog er mwyn dod â'r eitemau canlynol o fusnes ymlaen ddydd Mawrth 23 Chwefror:

Dadl am Orchymyn drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Diwylliant a meysydd eraill) 2010 a'i gymeradwyo

Dadl am Orchymyn drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg) 2010 a'i gymeradwyo

3.5 Gohiriwyd y dadleuon canlynol tan 2 Mawrth:

Dadl ar Ardaloedd Gwledig Anghysbell

Dadl ar Ddangosyddion Datblygu Cynaliadwy

3.6 Nododd y Llywodraeth ei bod yn bwriadu cyflwyno'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol drafft ar Dai a Llywodraeth Leol ddydd Mawrth. Cynigiodd y Gweinidog Busnes atal Rheolau Sefydlog gyda'r bwriad o drafod y Gorchymyn drafft yr wythnos hon. Cytunodd y Llywodraeth i drafod hyn ymhellach gyda'r Rheolwyr Busnes yn dilyn eu cyfarfodydd grŵp. Cytunwyd y byddai angen i'r Gweinidog Busnes gyflwyno'r cynnig i atal Rheolau Sefydlog pe na bai consensws trawsbleidiol.

#### Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)06-10(p2)

3.6 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.7 Rhoddodd y Llywodraeth wybod i'r Pwyllgor y byddai'r Mesur Arfaethedig ynghylch yr Iaith Gymraeg yn cael ei osod gerbron ar 1 Mawrth 2010 a chytunwyd y dylid rhoi gwybod i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 er mwyn ei alluogi i gynllunio cyfarfod yr wythnos nesaf pe bai'n dymuno gwneud hynny.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)06-10(p3)**

3.8 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.9 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

3.10 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Ariannu'r Seilwaith Ffyrdd yn cael ei chynnal ar ôl dadl gyda'r gwrthbleidiau ar 10 Mawrth, fel y gallai'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth fod yn bresennol.

## 4. Pwyllgorau

**Cais gan y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog i gynnal cyfarfod ffurfiol - BC(3)06-10(p4)**

4.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes y cais.

## 5. Busnes arall

**Papur ynghylch y broses ar gyfer atal Rheolau Sefydlog - BC(3)06-10(p5)**

5.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes y dull o atal Rheolau Sefydlog.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**